



3/18 Eagle Wing  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000  
e-bost: [GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk](mailto:GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk)

At bob parti â buddiant, cyrff  
ymgyngori ac eraill

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010072

Dyddiad: 8 Mawrth 2017

Annwyl Syr/Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adrannau 116 a 117 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (fel y'u diwygiwyd) – Rheoliad 23**

**Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cynllun Storio Pwmpiedig Glyn Rhonwy**

**Hysbysiad o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol**

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am gyhoeddi penderfyniad a datganiad rhesymau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu mewn perthynas â'r cais uchod.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, sef y penderfynwr o dan Adran 103 ac Adran 104 Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) wedi penderfynu y dylai caniatâd cynllunio gael ei roi, ac felly mae wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 114 (1)(a) Deddf Cynllunio 2008.

Gellir gweld copïau electronig o ddogfennau'r penderfyniad, gan gynnwys llythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, a thestun y Gorchymyn a wnaed yn:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/Wales/Glyn-Rhonwy-Pumped-Storage/>

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan yr Awdurdod Archwilio ar gael trwy'r un ddolen hefyd.

Bydd copïau caled o ddogfennau'r penderfyniad ar gael i'w harchwilio hefyd yn swyddfeydd yr Arolygiaeth Gynllunio (trwy drefnu apwyntiad gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod). Os hoffech dderbyn copi o lythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a thestun y Gorchymyn, ysgrifennwch neu anfonwch neges e-bost atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddwyd ar frig y llythyr hwn. Ni chodir

tâl os hoffech i ni anfon copi atoch.

Nid oes hawl apêl o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Caiff yr Uchel Lys ystyried achos sy'n codi amheuon ynglŷn â Gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu o'r diwrnod y cyhoeddir y Gorchymyn Caniatâd Datblygu neu, os yw'n hwyrach, y diwrnod pryd y cyhoeddir y llythyr penderfyniad. Y weithdrefn yw gwneud cais am adolygiad barnwrol. Mae'n rhaid i hyn gael ei wneud o fewn y cyfnod statudol a amlinellir yn Adran 118 Deddf Cynllunio 2008. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Swyddfa'r Llys Gweinyddol ar 0207 947 6655 neu dilynwch y ddolen hon (mae'r wefan ar gael yn Saesneg yn unig):

<http://www.justice.gov.uk/courts/rcj-rolls-building/administrative-court/applying-for-judicial-review>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am lythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, neu'r Gorchymyn a wnaed, cysylltwch â'r canlynol:

Giles Scott  
Head of Energy Infrastructure Planning and Coal Liabilities  
Department for Business, Energy and Industrial Strategy  
4th Floor Area C  
3 Whitehall Place Llundain  
SW1A 2AW

Ebost: [deccnic@decc.gsi.gov.uk](mailto:deccnic@decc.gsi.gov.uk)

Fel arall, os hoffech gael rhagor o fanylion am y prosiect, gallwch fynd i wefan yr ymgeisydd yn <http://www.snowdoniapumpedhydro.com/index.php/cy/> neu gysylltu â'r ymgeisydd ar 01223653028.

Yn gywir

*Mark Southgate*

**Cyfarwyddwr Gwaith Achos Mawr**  
**Ar gyfer ac ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Busnes, Ynni a Strategaeth**  
**Ddiwydiannol**

Ceir rhoi cyngor ynglŷn â gwneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau am gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddiybnyu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.